

Amddiffyniad cyfartal i blant

Dileu amddiffyniad 'cosb resymol' mewn perthynas ag ymosodiadau ar blant yng Nghymru

Beth yw ystyr 'amddiffyniad cyfartal'?

Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod plant, aelodau mwyaf diamddiffyn y gymdeithas yng Nghymru, yn haeddu o *leiaf* yr un lefel o amddiffyniad ag oedolion – amddiffyniad cyfartal. Ond ar hyn o bryd mae ganddyn nhw *lai*. Mae Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn cynnwys amddiffyniad y gall rhieni, rhai gofalwyr ac oedolion eraill ei ddefnyddio os byddant yn wynebu cyhuddiad o ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn. Mae cyfeirio ato fel 'gwahardd smacio' yn gwamalu ynghylch y mater sydd dan sylw.



Rydyn ni am weld amddiffyniad 'cosb resymol' yn cael ei ddileu. Mae hynny'n amddiffyniad cyfreithiol yn wyneb cyhuddiad o ymosod a churo, ac nid yw ar gael os bydd ymosodiad yn digwydd yn erbyn oedolyn. Fyddai newid y gyfraith i'w ddileu ddim yn creu trosedd newydd, ond byddai yn dileu anghysondeb sy'n methu â pharchu hawliau dynol plant ac yn gadael plant agored i niwed mewn perygl. Mae bodolaeth yr amddiffyniad yn golygu hefyd bod y rhai sy'n gweithio i gefnogi rhieni a theuluoedd yn methu cyfleu neges glir, ddiamwys ynghylch peidio â defnyddio cosb gorfforol. Mae'r dystiolaeth ymchwil yn dangos nad yw hynny'n gweithio, mai llai a llai o rieni sy'n defnyddio'r dull hwnnw, ac y gall achosi niwed.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch sut mae cyflwyno ymrwymiad i ddileu amddiffyniad 'cosb resymol', a wnaed yn etholiadau diwethaf y Cynulliad. Roedd maniffesto Llafur Cymru a maniffesto Plaid Cymru yn cynnwys addewidion o'r fath, ac mae sawl AC unigol o'r pleidiau eraill hefyd yn cefnogi diwygio'r drefn. Bydd Senedd yr Alban hefyd yn ystyried deddfwriaeth debyg, er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant, ac mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud y bydd yn cefnogi'r newid.

Gan fod Llafur Cymru a Plaid Cymru wedi addo gwneud hyn yn eu maniffestos, etholwyd 41 Aelod Cynulliad ar lwyfan sy'n cynnwys cefnogi amddiffyniad cyfartal i blant. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod y gyfraith yn gywir, bod yr holl gefnogaeth a gwybodaeth gyhoeddus i rieni yn ei lle, a bod hyfforddiant ac arweiniad ar gael i weithwyr proffesiynol yn ogystal.

Ond dim ond dwy wlad yw hynny. Ydy hyn wedi digwydd unrhyw le arall?

Yn sicr, fydd Cymru ddim ar ei phen ei hun yn gwneud hyn. Mae 53 o wladwriaethau wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n gwahardd pob cosb gorfforol i blant (gweler t.5). Sweden oedd y gyntaf, bron 40 mlynedd yn ôl. Ymhlith y diweddaraf mae Gweriniaeth Iwerddon. Mae 56 o wledydd eraill wedi

ymerwymo i greu deddfwriaeth. Ym mhob un o'r 53 gwladwriaeth, daeth y ddeddfwriaeth i rym cyn y farn gyhoeddus, gyda'r llywodraethau'n rhoi arweiniad cadarn. Nid yw'r diwygio ar y drefn wedi cael ei gwyrddroi mewn unrhyw un o'r gwledydd hynny, hyd yn oed ar ôl i'r llywodraeth newid. Ni welwyd chwaith fod pryderon ynghylch llu o erlyniadau neu niferoedd cynyddol o blant direolaeth yn ddilys wedi i'r gyfraith ddod yn weithredol.



Onid yw hwn yn newid cyfeiriad sydyn?

Ddim mewn gwirionedd. Cafwyd y drafodaeth gyntaf ar y mater hwn yn y Cynulliad yn 2002, a siaradodd Gweinidog y Llywodraeth o blaid amddiffyniad cyfartal wrth ymateb. Ers i ddatganoli gychwyn, mae'r Cynulliad wedi pleidleisio o blaid dileu'r amddiffyniad ddwywaith, ond roedd y Cynulliad heb bŵer i ddeddfu. Yn 2004, anogodd Llywodraeth Cymru Lywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig i weithredu, ac yn 2008 bu Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn cydnabod safiad blaengar Cymru ar y mater hwn. "Gwneud pob cosb gorfforol i blant yn anghyfreithlon" oedd Blaenoriaeth 10 yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ynghylch rhoi Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn ar waith.

Ar hyd y cyfnod hwnnw mae rhaglenni rhianta a chyhoeddiadau wedi datgan yn glir nad yw cosb gorfforol yn gweithio, ac maen nhw wedi hybu agwedd gadarnhaol at reoli ymddygiad.

Pwy yw 'Sdim Curo Plant!/CAU! Cymru

Cynghrair o sefydliadau allweddol sy'n gweithio ledled Cymru a llawer o unigolion, sy'n cynnwys athrawon, academyddion, gweithwyr gofal plant, pobl ifanc, ac wrth gwrs rhieni, yw 'Sdim Curo Plant!/CAU! Cymru. Mae ein Grŵp Strategaeth yn cynnwys yr elusennau plant blaenllaw (gan gynnwys NSPCC Cymru/Wales, Tros Gynnal Plant a'r corff ymbarél Plant yng Nghymru), Cymorth i Ferched Cymru, Colegau Brenhinol perthnasol (megis y rhai i Bediatregwyr a Nyrsys). Mae Colegau Brenhinol eraill, cymdeithasau proffesiynol (fel BASW Cymru [gweithwyr cymdeithasol]) a Byrddau Diogelu Plant hefyd yn gefnogwyr. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymuno â'r ymgyrch, fel y mae llawer o grwpiau crefyddol, y prif ddarparwyr gofal plant a chymorth rhianta a llawer o brosiectau Dechrau'n Deg. Ymhlith yr unigolion amlwg sy'n rhan o'r ymgyrch mae Comisiynydd Plant Cymru, yr Athro Sally Holland; a'r grŵp amlddisgyblaeth *Academics for Equal Protection*. Ym mis Mawrth 2015 ymunodd yr actor Michael Sheen â'r alwad am ddeddfwriaeth, gan feirniadu Cymru am 'lusgo traed'.

Onid dim ond gwaharddiad smacio yw hyn?

Er ei fod yn aml yn cael ei alw'n 'waharddiad smacio', fyddai'r newid i'r ddeddfwriaeth ddim yn creu tramgwydd droseddol newydd, ac nid yw'n waharddiad fel y cyfryw. **Y cyfan y byddai'n ei wneud fyddai dileu amddiffyniad anghyfartal, anacronistaidd sydd ar gael i rieni a rhai gofalwyr sy'n cyflawni ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn.** Gellir defnyddio'r amddiffyniad i esgusodi

amrywiaeth o gosbau poenus a bychanol, a byddai ei ddileu, yn syml iawn, yn rhoi i blant yng Nghymru yr un lefel o amddiffyniad ag sydd ar gael i oedolion ar hyn o bryd – dim mwy, dim llai.

Mae'r prif sefydliadau sy'n cefnogi rhieni a theuluoedd, ochr yn ochr ag asiantaethau amddiffyn plant, o'r farn bod newid o'r fath o gymorth i rieni yn ogystal ag i'w gwaith hwythau yn amddiffyn y plant mwyaf agored i niwed.

Ond dyw ambell smacen ddim wir yn gwneud niwed, ydy e?

Mae'r dystiolaeth ymchwil yn glir yn hyn o beth. Mae defnyddio corff gorfforol yn aneffeithiol, a gall achosi cryn niwed. Mae dros 250 o astudiaethau wedi cael sylw gan y Fenter Fyd-eang i Ddileu Pob Cosb Gorfforol i Blant mewn adolygiad (<http://endcorporalpunishment.org/research/impact-corporal-punishment.html>) o'r gwaith ymchwil a wnaed ar effaith cosb o'r fath, ac maen nhw'n dangos ystod eang o ganlyniadau negyddol i blant, rhieni, teuluoedd a'r gymdeithas ehangach. Hefyd, comisiynodd sefydliadau plant yn yr Alban yr adroddiad *Equally protected?* (2015) oedd yn adleisio'r canfyddiadau hyn (<https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/equally-protected.pdf>). Yn groes i'r hyn roedd pobl yn arfer ei gredu, does dim manteision.

Ond oni fydd rhieni da yn cael eu 'troseddoli'?

Dyw profiad gwledydd eraill ddim yn cefnogi'r pryder hwn, gan nad yw ofnau ynghylch cynnydd aruthrol mewn erlyniadau wedi cael eu gwireddu. Prif ddiben newid y gyfraith yw atal plant rhag cael eu taro neu eu brifo yn y lle cyntaf, newid ymddygiad a helpu teuluoedd i gael cymorth; nid erlyn rhieni ar ôl i rywbeth ddigwydd. Mae gan addysg gyhoeddus a rhaglenni rhianta ran bwysig i'w chwarae, ac rydyn ni eisoes wedi gwneud llawer o gynnydd ar hyn yng Nghymru.

Mae profiad rhyngwladol yn dangos, ar ôl newid y gyfraith, mai llai a llai o rieni sy'n defnyddio cosb gorfforol, a bod agweddau'n newid. Rydyn ni'n gwybod bod agweddau eisoes yn newid yng Nghymru. Bydd mwyafrif llethol o rieni'n dilyn arweiniad y gyfraith.

I'r rhan fwyaf o bobl mae'r gair 'troseddoli' yn golygu cael eu cyhuddo, eu herlyn neu eu cael yn euog, nid cyflawni trosedd ddamcaniaethol. Prin iawn yw'r posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd i rieni am smacio 'dibwys'. Mae'r heddlu a'r gwasanaethau erlyn yn gweithredu o dan yr egwyddor gyfreithiol na ddylent fynd ar ôl materion dibwys (egwyddor *de minimis*). Ni fydd erlyniad yn mynd rhagddo ar gyfer unrhyw achos o ymosod ar blentyn oni bai bod hynny'n cael ei ystyried er budd y cyhoedd ac er lles pennaf y plentyn. Mae erlyn rhieni am smacio 'dibwys' yn annhebygol o fodloni'r naill amod na'r llall.

Mae'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn derbyn adroddiadau gan bobl sy'n pryderu ynghylch gweld plentyn yn cael ei daro neu ei frifo, ac yn gwybod sut mae ymateb yn briodol. O dan *Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* mae'r heddlu'n trin achosion o'r fath fel materion amddiffyn plant, ac yn gweithredu mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Byddai hynny'n dal yn wir, ac ni fyddai'r trothwy '*niwed sylweddol*' y mae gweithwyr proffesiynol yn eu defnyddio yn newid.

Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd – megis ymwelwyr iechyd a staff canolfannau teulu – weithiau yn gweld ymddygiad rhianta sy'n peri pryder iddyn nhw. Ar hyn o bryd mae'n anodd rhoi neges glir, ddiamwys i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi oherwydd bod y gyfraith yn aneglur. Mewn achosion lle gallai plant fod mewn perygl o ddiodef camdriniaeth, gallai fod

canlyniadau trychinebus i'r oedi hwn. Mae cosb gorfforol wedi bod yn ffactor ym mhob un o'r prif achosion o gam-drin plant sydd wedi cyrraedd y cyfryngau, ac mewn llawer o achosion mae cymdogion, aelodau o'r cyhoedd, y teulu ehangach, neu weithwyr proffesiynol wedi bod yn bryderus, ond wedi teimlo eu bod yn methu gweithredu.

Mae defnydd rhiant o rym rhesymol i atal plentyn rhag brifo'r rhiant, neu frifo plentyn arall, neu ddifrodi eiddo, neu gyflawni trosedd, neu frifo'i hunan (e.e. atal plentyn rhag rhedeg allan i'r ffordd) yn cael ei gwmpasu gan amddiffyniadau sydd eisoes yn bodoli yng nghyfraith gwlad, na fyddai hyn yn effeithio arnynt.

Oni allai hyn i gyd gael ei gyflawni trwy addysg gyhoeddus?

Mae ymchwil a phrofiad gwledydd eraill yn dangos bod deddfwriaeth yn angenrheidiol. Nid yw addysg gyhoeddus ar ei phen ei hun yn gweithio, ond dylai ymgyrch addysg gyhoeddus gyd-fynd â newid yn y gyfraith. Gall hynny gael ei gyfuno â'r rhaglenni rhianta presennol yma yng Nghymru. Fydd y ffaith bod rhieni ddim yn cael taro plant ddim yn golygu bod rhieni'n colli eu pwerau i addysgu, arwain, rheoli a disgyblu.

Pam mae angen i hyn ddigwydd nawr?

- Mae'n destun pryder o safbwynt iechyd cyhoeddus ac amddiffyn plant: mae'n rhwystro gweithwyr proffesiynol (meddygon, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth teulu, athrawon ac ati) rhag gweithio gyda phlant a theuluoedd. Mae costau tymor hir – ariannol ac eraill - methu ag ymyrryd yn gynnar, yn gefnogol ac yn sensitif yn sylweddol.
- Mae amddiffyniad 'cosb resymol' yn **torri'r hawl dynol cyffredinol i amddiffyniad rhag trais**. Mae Cyrff Cytuniadau Rhyngwladol wedi galw droeon ar y Deyrnas Unedig i roi sylw i hyn, gan gynnwys argymhellion gan Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn, a ategodd yr alwad hon am y pedwerydd tro ym mis Mehefin 2016. Mae dileu'r amddiffyniad yn cyd-fynd â 'dyletswydd sylw dyledus' sydd ar Weinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a basiwyd yn unfrydol gan y Cynulliad.

Sut dylai'r ddeddfwriaeth edrych?

Dylai'r ddeddfwriaeth fod yn glir ac yn ddiamwys, a dylai ddileu amddiffyniad 'cosb resymol' yng Nghymru. Mae'r newidiadau a dablwyd ar gyfer dau Fil yn y Cynulliad yn 2014¹ a 2015² yn dangos sut gallai'r ddeddfwriaeth edrych.

Mewn rhai gwledydd, fel Seland Newydd, mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys eithriadau neu'n rhoi sicrwydd ynghylch sut dylai'r newid yn y gyfraith gael ei weithredu. Dydyn ni ddim yn credu bod hynny'n helpu, gan fod y ddeddfwriaeth bresennol, cyfraith gwlad a chanllawiau erlyn yn cynnwys y mesurau diogelu angenrheidiol. Er bod cynnwys cymalau o'r fath yn gallu ymddangos yn ddigon diniwed, gallan nhw danseilio effeithiolrwydd y gyfraith a'r neges mae'n ei chyfleu ynghylch y ffaith bod cosb gorfforol yn annerbyniol. Gall y diwygio hwn beri pryder, felly mae gwybodaeth gywir, addysgu'r cyhoedd a chefnogaeth i rieni yn hanfodol i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth; yn arbennig yn wyneb camwybodaeth gan y rhai sydd ddim yn cydnabod plant fel deiliaid hawliau dynol.

¹ <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s23641/Notice%20of%20Amendments%2023%20January%202014.pdf>

² <http://www.senedd.assembly.wales/documents/s37042/Notice%20of%20amendments%2024%20February%202015.pdf>

GWLEDYDD SYDD WEDI DILEU COSB GORFFOROL YN LLWYR


Yn y 53 gwladwriaeth canlynol mae gan blant amddiffyniad cyfartal ac maent yn cael eu hamddiffyn o dan y gyfraith rhag pob cosb gorfforol (y mwyaf diweddar yn gyntaf):

1	Lithwania (2017)	22	Gweriniaeth Congo (2010)	42	Twrmenistan (2002)
2	Slofenia (2016)	23	Cenia (2010)	43	Yr Almaen (2000)
3	Paragwâi (2016)	24	Twnisia (2010)	44	Israel (2000)
4	Montenegro (2016)	25	Gwlad Pwyl (2010)	45	Bwlgaria (2000)
5	Mongolia (2016)	26	Liechtenstein (2008)	46	Croatia (1999)
6	Periw (2015)	27	Lwcsembwrg (2008)	47	Latfia (1998)
7	Gweriniaeth Iwerddon (2015)	28	Gweriniaeth Moldofa (2008)	48	Denmarc (1997)
8	Benin (2015)	29	Costa Rica (2008)	49	Cyprus (1994)
9	Andora (2014)	30	Togo (2007)	50	Awstria (1989)
10	Estonia (2014)	31	Sbaen (2007)	51	Norwy (1987)
11	Nicaragwa (2014)	32	Feneswela (2007)	52	Y Ffindir (1983)
12	San Marino (2014)	33	Wrwgwâi (2007)	53	Sweden (1979)
13	Yr Ariannin (2014)	34	Portwgal (2007)		
14	Bolifia (2014)	35	Seland Newydd (2007)		
15	Brasil (2014)	36	Yr Iseldiroedd (2007)		
16	Malta (2014)	37	Gwlad Groeg (2006)		
17	Cabo Verde (2013)	38	Hwngari (2005)		
18	Hondwras (2013)	39	Romania (2004)		
19	TFYR Macedonia (2013)	40	Wcraïn (2004)		
20	De Swdan (2011)	41	Gwlad yr Iâ (2003)		

Mae'r rhestr hon yn cynnwys 32 o aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop a 23 aelod o'r Uneb Ewropeaidd.

Mae o leiaf 56 gwladwriaeth arall wedi ymrwymo i ddod â'r ddeddfwriaerth angenrheidiol i rym.

Cynnydd tuag at waharddiad byd-eang i gosbi plant yn gorfforol



Beth mae plant yn dweud?

Yn 2013, yn ystod digwyddiad i ddathlu Diwrnod Byd-eang y Plant, bu plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i rhoi cyfle iddyn nhw fynegi eu barn ar gosb gorfforol. Dyma rai o'r negeseuon roeson nhw i wleidyddion mewn digwyddiad yn Nhŷ Hywel ar yr un diwrnod:

'Rwy'n meddwl bod pobl yn smacio plant achos eu bod nhw'n teimlo'n grac tuag at eu plant, ac yn methu helpu gwneud e.'

'Mae rhai pobl yn smacio achos eu bod nhw'n grac neu'n teimlo'n isel am rywbeth.'

'Mae pobl yn smacio i ddial oherwydd eu bod nhw'n teimlo'n grac.'

'Mae oedolion i fod i'n cadw ni'n saff'

'Dyw taro plant ddim yn iawn, achos mae yna lawer o ffyrdd eraill gwell o ddatrys problemau.'

'Dyw taro plant ddim yn iawn, achos mae'n gwneud i chi deimlo'n ofnus ac yn anhapus.'

'Mae fel bod y trystio i gyd wedi diflannu.'

'All oedolion ddim cael eu taro. Pam dyw hynny ddim yn wir am blant?'

'Mae gen i hawl i fod yn ddiogel.'

'Dyw smacio plant ddim yn iawn, achos mae'n brifo plant.'

'Mae'n beth drwg iawn taro pobl. Peidiwch â gwneud e.'

'Mae'n gwneud i chi deimlo'n ofnus ac yn anhapus'

'Mae smacio yn creu embaras, yn ypsetio, yn brifo, yn bychanu ac yn codi ofn.'

'Falle bod e ddim yn gadael marc ar y tu allan... ond bydd yn gadael marc ar y tu mewn, am byth...'

'Dyw smacio ddim yn gwneud i chi fihafio, mae'n gwneud i chi grio.'

'Dyw e ddim yn iawn brifo rhywun.'

'Yn fy marn i dyw e ddim yn iawn bod oedolion yn gallu niweidio plentyn a galw hynny'n ddisgyblu.'

'Mae gwledydd eraill wedi gweld y golau, pam dyw'r Deyrnas Unedig ddim?'

Listen Up! Children talk about smacking Mae adroddiad ar waith ymchwil gyda phlant yng Nghymru i'w weld yma: <http://www.endcorporalpunishment.org/assets/pdfs/miscellaneous/ListenUp-English.pdf>

It Hurts You Inside Gallwch gyrchu crynodeb o'r gwaith ymchwil gyda phlant yn Lloegr yma: <http://www.crae.org.uk/media/26377/it-hurts-inside-summary-report.pdf>

I gael rhagor o fanylion am waith 'Sdim Curo Plant' ewch i: www.childrenareunbeatablecymru.org.uk/cy/
I gael gwybodaeth am gynnydd ac ymchwil ar lefel byd-eang, ewch i: www.endcorporalpunishment.org

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Sara Reid – Cydlynnydd 'Sdim Curo Plant/CAU Cymru

E-bost: dimtarocymru@gmail.com

Diweddarwyd: Chwefror 2018